OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 308

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020

**Gofynion ynglŷn â sgrinio**

**6.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae’r gofynion ynglŷn â sgrinio, mewn perthynas â pherson (“P”) yn ofynion i’r perwyl bod rhaid i P─

(a) ateb cwestiynau am iechyd P neu ei amgylchiadau perthnasol eraill (gan gynnwys hanes teithio a gwybodaeth am unigolion eraill y gallai P fod wedi bod mewn cysylltiad â hwy),

(b) dangos unrhyw ddogfennau a all gynorthwyo ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig neu swyddog iechyd cyhoeddus wrth asesu iechyd P,

(c) ar unrhyw adeg ag y caiff ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig ei bennu, caniatáu i swyddog iechyd cyhoeddus, neu swyddog meddygol, gymryd sampl fiolegol gan P, gan gynnwys sampl o secretiadau resbiradol neu waed P, drwy ddulliau priodol gan gynnwys drwy swabio ceudod trwyn a ffaryncs P, neu ddarparu sampl o’r fath, a

(d) darparu digon o wybodaeth i alluogi swyddog iechyd cyhoeddus i gysylltu â P ar unwaith yn ystod unrhyw gyfnod y caiff ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig ei bennu, pan fo’r ymgynghorydd iechyd cyhoeddus cofrestredig yn ystyried bod darparu gwybodaeth o’r fath yn angenrheidiol er mwyn lleihau neu ddileu’r risg y bydd P yn heintio neu’n halogi eraill.

(2) Pan fo P—

(a) yn blentyn, a

(b) yng nghwmni oedolyn cyfrifol,

mae paragraff (3) yn gymwys.

(3) Rhaid i’r oedolyn cyfrifol─

(a) sicrhau bod P yn ateb cwestiynau yn unol â pharagraff (1)(a),

(b) ateb y cwestiynau os na all P wneud hynny neu os na all wneud hynny mewn modd dibynadwy,

(c) dangos unrhyw ddogfennau, sy’n ofynnol o dan baragraff (1)(b), ar ran P,

(d) caniatáu i swyddog iechyd cyhoeddus, neu swyddog meddygol, gymryd sampl fiolegol gan P, gan gynnwys sampl o secretiadau resbiradol neu waed P, drwy ddulliau priodol gan gynnwys drwy swabio ceudod trwyn a ffaryncs P, neu ddarparu sampl o’r fath, ac

(e) darparu gwybodaeth pan fydd swyddog iechyd cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol o dan baragraff (1)(d).